9 Gorffennaf 2021

Annwyl Riant / Ofalwr,

Wrth inni agosáu at ddiwedd blwyddyn academaidd unigryw mewn llawer ffordd, hoffwn ddiolch i gymuned yr ysgol am ei chefnogaeth, ei gwaith caled a'i hymrwymiad trwy gydol y flwyddyn. Mae ein disgyblion unwaith eto wedi rhagori yn academaidd ac mewn ystod eang o weithgareddau amrywiol. Cwtogwyd ar rediad y flwyddyn ysgol gan gyfnodau o hunan-ynysu gan flynyddoedd cyfain cyn Nadolig, ac ail gyfnod clo Covid-19, a gosododd hyn heriau unigryw inni fel cymuned yr ysgol. Beth bynnag y sefyllfa, mae'r teulu estynedig yn Ysgol Gyfun Gwyr, yn ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr, wedi cefnogi ein gilydd.

Fel Pennaeth, hoffwn ddiolch i bob rhiant a gofalwr am y gefnogaeth rydych chi wedi'i hymestyn i'r Ysgol; rydych wedi bod mor barod i fynegi eich gwerthfawrogiad i ni dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf, yn ogystal â chynnig beirniadaeth adeiladol wrth i'r angen godi.

Hoffwn dalu teyrnged hefyd i staff yr Ysgol a lwyddodd, gydol y cyfnod, i roi blaenoriaeth i lesiant a chynnydd academaidd plant yr Ysgol, yn enwedig wrth gytuno i ffrydio pob gwers yn fyw o Ionawr tan Basg.

Ffarwel
Mae'r llythyr hwn hefyd yn gyfle i ffarwelio ag aelodau staff sy'n gadael ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

Ar ddiwedd tymor eleni bydd Ysgol Gyfun Gŵyr yn ffarwelio â **Mr Geraint Herbert-Evans**, Pennaeth yr Adran Fathemateg ers Ionawr 1987.

Nodweddwyd ei flynyddoedd wrth lyw'r Adran gan arweinyddiaeth gadarn ac egnïol. Sefydlodd Geraint y sylfeini strwythurol angenrheidiol i'r adran graidd bwysig hon. Enillodd yr Adran ei phlwy' fel un o adrannau Mathemateg mwyaf llwyddiannus Cymru gyfan yn TGAU, a hynny am flwyddyn ar ol blwyddyn. Nid ar chwarae bach y bu i'r Adran godi a chynnal safonau dros y ddegawd ddiwethaf o dan chwyddwydr mesurau atebolrwydd y Llywodraeth.

Bu Mr Herbert-Evans yn addysgu yn yr ysgol ers y drydedd flwyddyn o'i hanes, ar ôl iddo dreulio pum mlynedd yn addysgu Mathemateg yn Ysgol Llanhari. Bu'n arweinydd y wibdaith sgïo gydol ei gyfnod yn yr Ysgol, ac mae cenedlaethau o ddisgyblion wedi elwa o'r profiadau amrywiol a chyffrous y bu i'r gwibdeithiau hynny eu cynnig iddynt. Bu'n un o hyfforddwyr timoedd rygbi yr

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Ysgol am ddeng mlynedd ar hugain, a chyfrannodd at lwyddiannau cenedlaethol y gamp ar hyd y blynyddoedd. Dymunwn yn dda iawn i Mr Herbert-Evans ar drothwy ymddeoliad a fydd, gobeithio, yn hir a dedwydd. Diolch am ei gyfraniad amhrisiadwy i fywyd yr Ysgol.

Dymunwn yn dda i **Mrs Gemma Pugh,** Pennaeth yr Adran Wyddoniaeth am y pedair blynedd ddiwethaf, wrth iddi ein gadael. Bu'n bennaeth adran ysbrydoledig, a chynhaliwyd safonau aruchel Gwyddoniaeth o dan ei harweinyddiaeth.

Ddiwedd mis Mai, apwyntiwyd **Miss Llinos Davies** fel Ail yn yr Adran Gymraeg yn Ysgol Bro Myrddin. Bydd Miss Davies felly yn dychwelyd i'w chynefin yn y gorllewin.

Daw cyfnod **Mr Chris Lewis** fel Cyfarwyddwr Cerdd yr Ysgol i ben yn yr Haf. Diolch yn fawr iddo am gyfrannu at fywyd cerddorol yr Ysgol dros y tair blynedd diwethaf.

Mae dau arall yn ein gadael ar ddiwedd y tymor. Diolch i **Mr Gethin Bennett (**sydd wedi llenwi'r bwlch am gyfnod mamolaeth) a **Miss Manon Pirotte** (cyfnod mamolaeth), am eu cyfraniad i fywyd yr Ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae **Mr Dafydd Mills** a **Mr James Davies** eisoes wedi gadael tîm y cynorthwywyr dosbarth ers y Sulgwyn, ac wedi symud ymlaen i feysydd eraill. Diolchwn i'r ddau am eu cyfraniad gwerthfawr i fywyd yr ysgol.

Adroddiadau Disgyblion
Llwyddwyd i ddosbarthu adroddiadau ysgol i bob disgybl ym Mlwyddyn 7, Blwyddyn 8, Blwyddyn 9, a Blwyddyn 10 erbyn diwedd y tymor. Maent yn canolbwyntio ar briodoleddau personol eich plentyn, gyda'r cyfeiriadau angenrheidiol at lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol ym Mlynyddoedd 7 - 9, a graddau TGAU ym Mlwyddyn 10.

Trefniadau diwedd tymor
Diwrnod olaf y tymor yw **Dydd Gwener 16 Gorffennaf 2021** a bydd y bysiau'n gadael ar ddiwedd y diwrnod ysgol fel arfer.

Canlyniadau TGAU a Lefel A
Gellir casglu'r canlyniadau **Lefel A / UG** ar gyfer Blwyddyn 12 a 13 **Ddydd Mawrth 10 Awst**, ac mae canlyniadau **TGAU** ar gyfer Blwyddyn 11 yn unig ar gael i'w casglu **Ddydd Iau 12 Awst 2021** yn y **Gampfa** rhwng 8.30am a 1pm.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Trefniadau ar gyfer Medi 2021

Bydd yr Ysgol yn parhau i adolygu ei phrosesau Iechyd a Diogelwch Covid wrth i'r cyfarwyddyd a'r canllawiau a dderbynnir o'r Senedd newid dros y ddau fis nesaf. Bwriadwn i ddisgyblion Blwyddyn 7 - 13 gael y rhyddid i deithio o amgylch holl safle'r ysgol wrth symud o wers i wers. Ein dealltwriaeth ar hyn o bryd yw y disgwylir i ddisgyblion wisgo mygydau ar y bysys wrth deithio nôl ac ymlaen i'r Ysgol fore a nos, a'u cadw arno yn ardaloedd cyfyng yr ysgol fel coridorau a grisiau, ond y bydd modd iddynt eu tynnu bant yn ddiogel wedi cyrraedd eu gwersi (yn dilyn cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Addysg). Byddaf yn rhannu mwy o wybodaeth am hyn ar ddiwedd yr haf.

Rydym yn sylweddoli mai ein hangen mwyaf, fel disgyblion 7 - 9 yn benodol, yw ail-ymgysylltu mewn amgylchedd ystafell ddosbarth adrannol go iawn gyda'n hathrawon - dyma'r ffordd orau o bell ffordd i gefnogi anghenion bugeiliol ac academaidd ein plant - ac i liniaru unrhyw risgiau a allai ddeillio o hynny. Bwriadwn i ddisgyblion Blwyddyn 7 - 13 gael y rhyddid i deithio o amgylch holl safle'r ysgol wrth symud o wers i wers.

Dros y ddau fis nesaf, bydd yn rhaid i'r Ysgol gnoi cil ar y cyngor sydd yng Nghyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar gyfer dychwelyd ym Medi. Bydd yn rhaid delio â nifer o faterion, gan gynnwys y rheoliadau sy'n ymwneud â phellter cymdeithasol a thrafnidiaeth, a bydd yr Ysgol yn eich hysbysu chi fel rhieni yn llawn am y penderfyniadau yn hynny o beth. Ym mis Medi, byddwn yn parhau i gydymffurfio â'r system un ffordd sydd eisoes ar waith, ynghyd ag arferion a chyfundrefnau eraill a fabwysiadwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Byddwn yn dibynnu ar yr asesiadau risg mwyaf diweddar wrth ddod i unrhyw benderfyniadau, ac yn eich hysbysu pan fydd angen gwneud hynny.

Rhagwelwn y bydd dychweliad Medi i'r ysgol ar gyfer disgyblion Ysgol Gyfun Gŵyr fel a ganlyn:

Dydd Gwener 3 Medi **Blwyddyn 7** a **Blwyddyn 12** - Diwrnod Sefydlu.
(Mae'n bosib na fydd bwyd ar gael yn y Ffreutur ar y diwrnod hwn. Manylion i ddilyn)

Dydd Llun 6 Medi **Pob disgybl** a myfyriwr yn ôl ar y safle.
(Gobeithir gwneud defnydd o'r Ffreutur newydd)

Yr Adeilad Newydd

Bydd yr Ysgol yn cymryd perchnogaeth o'r Ffreutur a Bloc Dysgu newydd ar ddechrau Medi. O ganlyniad, bydd llawer o adrannau yn symud stafelloedd cam wrth gam cyn Nadolig. Ar ddechrau 2022, bydd y Stiwdio Ddrama a'r Adran Gerdd, ar eu newydd wedd, yn barod i ni eu defnyddio.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Mawr yw'r disgwyl am y gofod ychwanegol angenrheidiol, er y byddwn yn parhau i wynebu'r sialensiau o gael adeiladwyr ar y safle. Mae'r cydweithio hapus sydd wedi bodoli hyd yn hyn rhwng yr Ysgol, yr Awdurdod Lleol, a chwmni adeiladau Kier, yn siŵr o barhau hyd at ddiwedd y prosiect.

Llywodraethwyr
Bydd cyfarfod o Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Llywodraethwyr cyn diwedd y tymor i ymweld â'r adeilad newydd, ac i drafod trefniadau'r dychwelyd i'r Ysgol ym Medi. Mae'r Ysgol wedi gwerthfawrogi cefnogaeth lawn y Corff Llywodraethwyr yn arbennig dros y deunaw mis diwethaf, ac wedi elwa yn fawr iawn o'r ysbryd o gydweithio agos sydd wedi bodoli.

Amser Cinio
Bydd yr Ysgol yn glynu at ddull eleni o ddarparu cinio i Flynyddoedd 7, 8, a 9. Bwriedir parhau i baratoi cinio i **Flynyddoedd 10 i 13 yn ystod cyfnod cinio presennol 12:40pm – 1:30pm,** tra bod cyfnod cinio **Blwyddyn 7, 8, a 9 yn aros yn 1:30pm i 2:20pm**. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r defnydd o'r **Ap Archebu Bwyd** ar ol y peilota llwyddiannus fu eleni.

Pontio ac Anwytho
Rydym yn edrych ymlaen at groesawu 195 o ddisgyblion i Flwyddyn 7, a byddwn yn defnyddio'r diwrnod cyntaf uchod (3ydd Medi) i gyflwyno'r disgyblion i elfennau pwysicaf bywyd Ysgol Gyfun Gwyr, ac i ganiatáu iddynt fynychu rhai o'u gwersi ffurfiol cyntaf ar safle'r Ysgol. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at ddod i adnabod grŵp newydd o ddisgyblion wrth iddyn nhw ymgartrefu yn ein plith. Maent eisoes wedi ymweld â'r Ysgol yn ystod Gorffennaf.

Gwyddom na fu'n bosibl cynnal Noson Rieni na chwrs Llangrannog Blwyddyn 6 eleni, ond mae ein gwefan ar gyfer rhieni a disgyblion Blwyddyn 6 -
https://sites.google.com/hwbcymru.net/pontio-ysgol-gyfun-gwyr/adref
- yn dal i gynnwys llawer o wybodaeth am y cam cyffrous nesaf yng ngyrfa eich plentyn, yma yn Ysgol Gyfun Gwyr.

Gwisg Ysgol
Bydd y wisg ysgol yn dychwelyd i'r un arferol ar ôl y cyfnod o wisgo gwisg yr haf. Mae'r wisg Ysgol yn cynnwys trowsus ysgol du gydag esgidiau ysgol du plaen, a chrys polo a siwmper yr Ysgol. Atgoffwn rieni yn garedig nad yw jîns na 'leggings' yn dderbyniol fel trowsus ysgol, ac nad yw sgidiau hamdden yn cydymffurfio â chod gwisg yr Ysgol.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwyliau Ysgol a Diwrnodau HMS ar gyfer 2021-22
Isod mae manylion y gwyliau a'r diwrnodau HMS ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf i'ch helpu chi gyda'ch cynllunio. Bydd calendr llawn yn amlinellu dyddiadau a digwyddiadau allweddol eraill gyda chi ym mis Medi.

Gwyliau 2021-22	
Toriad Hanner Tymor 1	Dydd Llun 25 Hydref - Dydd Gwener 29 Hydref 2021
Gwyliau'r Nadolig	Dydd Llun 20 Rhagfyr 2021 - Dydd Llun 3 Ionawr 2022
Toriad Hanner Tymor 2	Dydd Llun 21 Chwefror - Dydd Gwener 25 Chwefror 2022
Gwyliau'r Pasg	Dydd Llun 11 Ebrill - Dydd Gwener 22 Ebrill 2022
Gŵyl y Banc	Dydd Llun 2 Mai 2022
Toriad Hanner Tymor 3	Dydd Llun 30 Mai - Dydd Gwener 3 Mehefin 2022
Gwyliau'r Haf	Dydd Llun 25 Gorffennaf - Dydd Gwener 2 Medi 2022

Dyddiau HMS 2021-22
HMS 1 Dydd Iau 2 Medi 2021
HMS 2 Dydd Llun 29 Tachwedd 2021
HMS 3 Dydd Mawrth 4 Ionawr 2022
HMS 4 Dydd Gwener 18 Chwefror 2022
HMS 5 Dydd Iau 24 Mehefin 2022
HMS 6 Dydd Iau 15 Gorffennaf 2022 (I'w gadarnhau)

Profion Llinol Covid – LFT
Ni fydd angen i unrhyw ddisgybl nag athrawon gymryd prawf llinol LFT ar Ddydd Llun a Dydd Iau yn ystod Gwyliau'r Haf. Byddwn yn ail ddechrau'r broses o ddosbarthu a defnyddio'r profion hyn ar Ddydd Llun 6 Medi, os mai dyna fydd polisi'r Senedd erbyn hynny.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch amynedd dros gyfnod heriol iawn. Rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn ysgol newydd ac at adnewyddu ein partneriaeth cartref-ysgol ym mis Medi. Dymunwn wyliau haf pleserus a diogel i chi.

Yr eiddoch yn gywir,

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

9 July 2021

Dear Parent / Carer,

As we approach the end of an unique academic year in many ways, I would like to thank the school community for its support, hard work and commitment throughout the year. Our pupils have once again excelled academically and in a wide range of other activities. The running of the school year was curtailed by periods of self-isolation of whole school years before Christmas, and the second lock-down of Covid-19, and this posed unique challenges for us as a school community. Regardless of the situation, the extended family at Ysgol Gyfun Gwyr, pupils, staff, parents and carers, have supported one other.

As Headteacher, I would like to thank all parents and carers for the support you have extended to the School; you have been so ready to express your appreciation to us over the last academic year, as well as offering constructive criticism as the need has arisen.

I would also like to pay tribute to the staff of the School who, throughout the year, prioritised the well-being and academic progress of the School's children, especially in agreeing to stream all lessons live from January to March.

Farewell

This letter is also an opportunity to say goodbye to members of staff who leave at the end of the school year.

At the end of this term Ysgol Gyfun Gŵyr will be bidding farewell to **Mr Geraint Herbert-Evans**, Head of the Mathematics Department since January 1987.

His years at the helm of the Department have been characterised by strong and energetic leadership. Geraint laid the necessary structural foundations for this important core subject. The Department gained its reputation as one of the most successful Maths departments in Wales at GCSE, year on year. The Department has raised and maintained its standards over the last decade when subject to the scrutiny of the Government 's accountability measures.

Mr Herbert-Evans has been teaching at the school since the third year of its existence, having spent five years teaching Mathematics at Ysgol Llanhari. He has been the leader of the annual skiing trip throughout his time at the School, and generations of pupils have benefited from the

varied and exciting experiences these trips have offered them. He has also been a coach of the School's rugby teams for thirty years, and has contributed to the national successes over the years.
We wish Mr Herbert-Evans well as he approaches what will, hopefully, be a long and happy retirement. We thank him for his invaluable contribution to the life of the School.

We wish **Mrs Gemma Pugh**, Head of the Science Department well for the last four years, as she leaves her post. She led this large department successfully, and maintained the extremely high standards of Science and its component disciplines.
At the end of May, **Miss Llinos Davies** was appointed Second in the Welsh Department at Ysgol Bro Myrddin. Miss Davies will therefore return to her native West Wales.
Mr Chris Lewis' term as the School's Music Director ends in the Summer. Many thanks to him for his contribution to the musical life of the School over the last three years.
Two more leave us at the end of term. Thanks to **Mr Gethin Bennett** (maternity leave) and **Miss Manon Pirotte** (maternity leave), for their contribution to the life of the School over the past year.
Mr Dafydd Mills and **Mr James Davies** have already left the team of team classroom assistants since Whitsun, and have moved on to other positions. We thank them both for their valuable contribution to school life.

Pupil Reports
School reports were distributed to all pupils in Year 7, Year 8, Year 9, and Year 10 by the end of term. They focus on your child's personal attributes, with the necessary references to National Curriculum levels in Years 7 - 9, and GCSE grades in Year 10.

End of term arrangements
The last day of term is Friday 16 July 2021 and buses will leave as team usual team at the end of the school day.

GCSE and A Level results
The A / AS Level results for Years 12 and 13 can be collected on Tuesday 10 August, and GCSE results for Year 11 only are available for collection on Thursday 12 August 2021, at the Sports Hall between 8.30am and 1pm.

Arrangements for September 2021

The School will continue to review its Covid Health and Safety processes as the guidance received from the Senedd changes over the next two months. We aim for Year 7 - 13 pupils to have the freedom to travel around the whole school site as they move from lesson to lesson. Our current understanding is that pupils are expected to wear masks on the buses when travelling to and from School morning and afternoon, and keep them on in confined areas of the school such as corridors and stairs, but will be able to remove them during lessons (following the Education Minister's recent announcement). I will be sharing more information on this at the end of the summer.

We realise that our greatest need, as pupils in Years 7 - 9,in particular, is to re-engage in our usual departmental classroom environment with our teachers - this is by far the best way to support our children's pastoral and academic needs - whilst mitigating any risks that may result. We aim for Year 7 - 13 pupils to have the freedom to travel around the whole school site as they move from lesson to lesson.

Over the next two months, the School will need to reflect on the advice contained in the Welsh Government guidance for return in September. A number of issues will have to be dealt with, including the regulations relating to social distance and transport, and the School will keep you fully informed of decisions in that regard. In September, we will continue to comply with the one-way system already in place, along with other practices and regimes adopted over the past year. We will rely on the most up-to-date risk assessments in reaching any decisions, and will inform you when necessary.

We anticipate that the September return to school for pupils of Ysgol Gyfun Gwyr will be as follows:

Friday 3 September **Year 7 and Year 12** - Induction Day.
(Food may not be available in the Refectory on this day. Details to follow)
Monday 6th September **All pupils and students** back on site.
(It is hoped to make use of the new Canteen)

The New Building

The School will take ownership of the new Canteen and Teaching Block at the beginning of September. As a result, many departments will be moving before Christmas. At the beginning of

2022, the newly refurbished Drama Studio and Music Department will be ready for use. We have great expectations of the School's new facilities,though the School will continue to face the challenges of having builders on site. The good co-operation that has existed to date between the School, the Local Authority, and Kier Construction is set to continue until the end of the project.

Governors

There will be a meeting of the Governors' Health and Safety Sub-Committee before the end of term to visit the new building, and to discuss the return to School arrangements in September. The School has particularly appreciated the full support of the Governing Body over the past eighteen months, and has benefitted greatly from all the advice proferred and the support offered.

Lunch time

The School will adhere to this year's approach to providing lunch for Years 7, 8, and 9. It is intended to continue to prepare lunch for **Years 10 to 13** during the current lunch period of **12:40 pm - 1:30 pm**, whilst the Year 7, 8, and 9, lunch period stays at **1:30 pm to 2:20 pm**. We will continue to develop the use of the Food Ordering App after the successful pilot this year.

Transition and Induction

We look forward to welcoming 195 pupils to Year 7, and will be using the first day above (3rd September) to introduce our new pupils to the most important elements of Ysgol Gyfun Gwyr's life, and to allow them to attend some of their formal lessons first on the School site. We are really looking forward to getting to know a new group of pupils as they settle in. They have already visited the School once during July.

We know that it wasn't possible to hold a Parents' Evening or Llangrannog Year 6 course this year, but our website for parents and Year 6 pupils – https://sites.google.com/hwbcymru.net/pontio-chool-unun-gwyr/ home
- still contains lots of information about the exciting next stage in your child's progress, here at Ysgol Gyfun Gŵyr.

School uniform

The school uniform will return to normal after the summer. The school uniform consists of black school trousers with plain black school shoes, and a School polo shirt and jumper. Parents are kindly reminded that jeans and leggings are not acceptable as school trousers, and that trainersdo not comply with the School's dress code.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

School Holidays and INSET Days for 2021-22

Below are details of the holidays and INSET days for the next academic year to help you with your planning. A full calendar outlining dates and other key events will be with you in September.

School Holidays 2021-22	
Half Term Break 1	Monday 25 October - Friday 29 October 2021
Gwyliau'r Nadolig	Monday 20 December 2021 - Monday 3 January 2022
Half Term Break 2	Monday 21 February - Friday 25 February 2022
Easter Holidays	Monday 11 April - Friday 22 April 2022
Bank Holiday	Monday 2 May 2022
Half Term Break 3	Monday 30 May - Friday 3 June 2022
Summer Holidays	Monday 25 July - Friday 2 September 2022

INSET Days 2021-22
INSET 1 Thursday 2 September 2021
INSET 2 Monday 29 November 2021
INSET 3 Tuesday 4 January 2022
INSET 4 Friday 18 February 2022
INSET 5 Thursday 24 June 2022
INSET 6 Thursday 15 July 2022 (To be confirmed)

Covid Linear Tests - LFT

No pupils or teachers will be required to take linear LFT tests on Mondays and Thursdays during the Summer Holidays. We will resume the distribution and use of these tests on Monday 6 September, if that is the Senedd's policy by then.

Thank you for your support and patience during a very challenging time. We look forward to the new school year and the renewal of our home-school partnership in September. We wish you an enjoyable and safe summer holiday.

Yours faithfully,

Head

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk